OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 No. 2369

Cynllun Cychod Pysgota (Darlledu Data Gweithgareddau Pysgota yn Electronig) (Cymru) 2010

RHAN 2

Grant ar gyfer meddalwedd a gymeradwywyd

Meddalwedd a gymeradwywyd a chyflenwyr a gymeradwywyd

3.—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi rhestr sy'n pennu—

(a) meddalwedd sy'n gallu—

(i) cofnodi data gweithgareddau pysgota'n electronig; a

(ii) darlledu data gweithgareddau pysgota'n electronig yn y ffurf ofynnol; a

(b) cyflenwyr y feddalwedd honno.

(2) Yn y paragraff hwn, ystyr "y ffurf ofynnol" ("*required format*") yw ffurf a bennir ac a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru at ddibenion y Rheoliad UE.

Cymhwystra am grant

4.—(1) Caiff person wneud cais, yn unol â darpariaethau'r Cynllun hwn, i Weinidogion Cymru am grant, os yw'r person hwnnw—

(a) yn feistr, yn berchennog neu'n siartrwr cwch pysgota Cymreig cymwys; a

(b) wedi prynu meddalwedd a gymeradwywyd gan gyflenwr a gymeradwywyd, neu wedi comisiynu cyflenwr a gymeradwywyd i gyflenwi meddalwedd a gymeradwywyd, i'w defnyddio ar y cwch hwnnw.

(2) Yn y paragraff hwn, mae "meistr" ("*master*") yn cynnwys y person y mae'r cwch pysgota dan ei ofal am y tro.

Talu grant

5.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru dalu unrhyw grant, neu unrhyw ran ohono, wedi i'r cais gael ei gymeradwyo o dan baragraff 9(1) a bod Gweinidogion Cymru wedi'u bodloni—

(a) bod y cyflenwr a gymeradwywyd wedi cyflenwi'r feddalwedd a gymeradwywyd i'r ceisydd a bod y feddalwedd wedi'i gosod yn y cwch pysgota Cymreig cymwys;

(b) bod y ceisydd wedi defnyddio'r feddalwedd a gymeradwywyd i gofnodi ac i ddarlledu'n electronig ddata gweithgareddau pysgota yn unol â'r Rheoliad UE; ac

(c) bod cydymffurfio wedi bod ag unrhyw amod ar gyfer talu'r grant neu unrhyw ran ohono.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru—

(a) talu'r grant i'r ceisydd neu'n uniongyrchol i'r cyflenwr a gymeradwywyd ar ran y ceisydd;

(b) talu'r grant ar y fath adeg, neu drwy'r fath randaliadau ar y fath ysbeidiau neu adegau, ag y dichon Gweinidogion Cymru bennu; ac

(c) rhoi un grant yn unig mewn cysylltiad ag unrhyw gwch pysgota Cymreig cymwys.

Swm y grant

6. O ran swm y grant—

(a) rhaid iddo beidio â bod yn fwy na chost prynu neu gyflenwi'r feddalwedd a gymeradwywyd; a

(b) caiff fod yn swm llai o faint bynnag a bennir gan Weinidogion Cymru.